



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Munudau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

8 Gorffennaf 2022

9:00 yb i 11:15 yb

Trwy gyfrwng Zoom

| | |
|---------------------|--|
| Yn bresennol: | Mary Wimbury (Cadeirydd), Alwyn Jones, Alison Kemp, Andrea Hughes, Ann Woods, Catrin Roberts, Chris Stockport, Cynghorydd Elen Heaton, Cynghorydd Dilwyn Morgan, Cynghorydd Alun Roberts (tan 10:30 am), Cynghorydd John Pritchard (tan 10:30 am), Cynghorydd Liz Roberts, David Soley (yn mynychu ar ran Nicola Stubbins), Estelle Hitchon, Fôn Roberts, Helen Corcoran, Jane Davies (yn mynychu ar ran Neil Ayling), Jenny Williams, Meinir Williams-Jones, Morwena Edwards (tan 10:50), Shan Lloyd Williams, Sian Tomos, Teresa Owen, Trudy Ellisnames here (use tab key to indent new lines or paragraphs) |
| Ymddiheuriadau: | Cynghorydd Christine Jones, Dave Hughes, Dr Lowri Brown, Delyth Lloyd-Williams, Ffion Johnstone, Iwan Davies, Jo Whitehead, Lucy Reid, Neil Ayling, Nicola Stubbins, Ricki Owen, Sam Parry |
| Hefyd yn bresennol: | Sarah Bartlett, Rheolwr Canolfan Cydlynu Arloesedd Rhanbarthol Gogledd Cymru Jo Flannery, Diprwy Gyfarwyddwr Dros Dro Gofal Sylfaenol BIPBC |

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

Gwnaeth y cadeirydd ddiolch yn ffurfiol i Morwena Edwards, a fydd yn gadael ei swydd gyda Chyngor Gwynedd ar ddiwedd mis Gorffennaf, am ei chyfraniad sylweddol i'r Bwrdd a dymunodd yn dda iddi i'r dyfodol.

2 Penodi Is-gadeirydd

Yn dilyn yr etholiadau lleol diweddar a'r newidiadau yn sgil hynny i aelodau y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, eglurodd CR y broses ar gyfer ethol is-gadeirydd ar gyfer aelodau'r Awdurdodau Lleol:

- Gofynnir am enwebiadau aelodau'r Awdurdodau Lleol erbyn 18.7.22, am is-gadeirydd am gyfnod o 8 mis (Awst 22– Mawrth 23), i ymgymryd â swydd y cadeirydd o fis Ebrill 2023 am gyfnod o ddwy flynedd.
- Os derbynnir un enwebiad yn unig, bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi drwy e-bost bod y sawl a enwebwyd wedi'i ethol yn Is-gadeirydd.
- Os oes mwy nag un enwebiad, gofynnir i aelodau BPRhGC gymryd rhan mewn pleidlais, a gynhelir rhwng 20 – 22 Gorffennaf 2022. Bydd y cadeirydd yn cyhoeddi canlyniad y bleidlais drwy e-bost.
- Bydd yr Is-gadeirydd yn dechrau ar ei ddyletswyddau yng nghyfarfod mis Medi o'r Bwrdd.
- Bydd trafodaeth ynglŷn ag enwebu ail is-gadeirydd yn cael ei chynnwys yn y gwaith o gynllunio gweithdai ym mis Medi/Hydref.

Cam Gwethredu

- Cynnwys penodi is-gadeirydd yn y rhaglen – RW

3 Cynllunio gweithdy

Yn anffodus, oherwydd Covid, mae cyfarfod heddiw yn cael ei gynnal yn rhithiol a bydd y gweithdy yn awr yn cael ei gynnal yng nghyfarfodydd mis Medi neu fis Hydref.

Bydd y gweithdy yn gyfle i ystyried agweddau allweddol ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru:

- Cylch Gorchwyl y Bwrdd,
- Gweledigaeth y Bwrdd,
- Ystyried materion strategol brys mwy hirdymor a
- Blaenoriaethau'r Bwrdd wrth ddechrau'r broses o ddatblygu Cynllun Ardal y Rhanbarth, a fydd yn cael ei lywio gan ganlyniadau'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (MSR), gan gymryd i ystyriaeth blaenoriaethau strategol sefydliadau sy'n bartneriaid ac ystyriaethau yn ymwneud â mentrau polisiau cenedlaethol.

Er mwyn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer yr ymarferiad gweithdy, bydd crynodeb o'r holl strategaethau allweddol i'w hystyried yn cael eu rhoi i aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i'w adolygu a chael adborth, bydd crynodeb yn cael ei baratoi o'r negeseuon allweddol, a bydd yn sail i weithgaredd y gweithdy.

Cam Gweithredu

- Trefniadau cynllunio'r gweithdy i gael eu rhannu gyda phawb – CR

4 Negeseuon Allweddol yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (PNA) a'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (MSR)

Derbyniodd y bwrdd gyflwyniad manwl gan SB ar y dull gweithredu ar gyfer cwblhau'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth/Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad, a'r negeseuon allweddol wrth baratoi ar gyfer gweithdy'r hydref.

Roedd yr ymarferiad hwn, a gynhelir bob 5 mlynedd, yn canolbwyntio ar ymgysylltiad, ac yn dechrau drwy ystyried testunau sy'n bwysig i bobl a'r data sydd ar gael, canfyddiadau ymgynghori ac ymgysyllu â phobl ifanc. Er mwyn cael mwy o fewnwelediad gan y rhai sy'n comisiynu, yn darparu ac yn defnyddio'r gwasanaeth, cafodd yr adroddiad ei gynhyrchu ar y cyd, yn hytrach na bod un awdur yn cyflwyno'r data.

Oherwydd cyfyngiadau amser a chapasiti yn sgil Covid, roedd y gwaith wedi canolbwyntio ar gyrraedd amserlen Llywodraeth Cymru, sef 1.4.2022. Bydd y ddogfen yn cael ei diweddarau'n rheolaidd yng ngham nesaf y prosiect i gynnwys data cyfrifiad 2021, sy'n dechrau cael eu rhyddhau.

Roedd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth wedi edrych ar y grwpiau poblogaeth canlynol, ac wedi cynnwys nifer o themâu a blaenoriaethau trawsbynciol i fynd i'r afael â phob grŵp:

- Plant a phobl ifanc – bydd blaenoriaethau'r grŵp Plant yn cael eu cyflawni gan is-grŵp plant Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Pobl hŷn – mae rhagor o wybodaeth am Bobl Hŷn i'w chael yn yr Adroddiad o Sefydlogrwydd y Farchnad
- Iechyd, namau corfforol a synhwyraidd
- Anabledau dysgu
- Awtistiaeth
- Iechyd meddwl (oedolion)
- Gofalwyr di-dâl
- Cyn-filwyr

- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau ataliol, lluniodd iechyd cyhoeddus fap tystiolaeth o'r ymyriadau rydym yn eu defnyddio fel rheol a'r dystiolaeth ar eu cyfer.

Roedd casgliad yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn nodi'r canlynol:

- Mae newidiadau i'r boblogaeth yn cynyddu anghenion gofal, cymhlethdod anghenion ac anghenion cymorth gofalwyr,
- Effaith tlodi ac amddifadedd ar iechyd a lles,
- Problem barhaus recriwtio a chadw staff iechyd a gofal cymdeithasol.

Nodwyd bod y materion canlynol sy'n dod i'r amlwg: Brexit, Covid, newid hinsawdd a chostau byw, hefyd yn cael effaith ar y boblogaeth.

Yn ogystal â diweddarau'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth drwy gynnwys canlyniadau cyfrifiad 2021, byddai SB a'r tîm yn croesawu unrhyw wybodaeth arall a fyddai'n ddefnyddiol ac yn cynorthwyo gwaith BPRhGC.

Roedd TO yn cydnabod y gwaith a wnaed gan SB a'r tîm, ac er ei bod yn croesawu'r pwyslais ar Blant a Phobl Ifanc, roedd o'r farn y gellid cryfhau'r gwaith ym maes Pobl Hŷn a Dementia.

Awgrymodd AJ fod sylw yn cael ei roi i'r camau cadarnhaol sy'n arwain o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau niferus a chyfeiriodd SB at y pethau cadarnhaol a oedd yn codi o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth:

- Nid oedd y cynnydd disgwylidig mewn dementia wedi digwydd oherwydd gwelliannau ym maes ymchwil, iechyd a chadw'n fwy gweithgar yn gorfforol,
- mae llai o bobl yn ysmegu,
- mae pobl yn byw'n hirach

Roedd yr adborth gan aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys:

- Y rhwymedigaeth ariannol enfawr yn y dyfodol ar gyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â blaenoriaethau pob grŵp yn y boblogaeth.
- Heriau i adeiladu seilwaith a gweithlu i gyflawni canlyniadau
- Bydd argyfwng costau byw a Covid yn arwain at heriau sylweddol wrth fynd i'r afael â gwaith adfer ar draws y system.
- Nid yw Pobl Ddigartref wedi cael eu cynnwys yn y grwpiau poblogaeth.

Esboniodd SB fod pobl ddigartref wedi'u cynnwys yn yr Aseiad cyntaf, a chytunodd i gynnwys y grŵp poblogaeth hwn yn fwy manwl, gan fod digartrefedd yn parhau i fod yn fater heriol.

- Cytuno ar bwysigrwydd y gwaith ataliol a chroesawu mentrau fel y Gronfa Buddsoddiad Rhanbarthol lle mae canran benodol o'r cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer y Trydydd Sector
- Pwysigrwydd ystyried y gwasanaeth cyfan, y galw, gofynion cleifion a thystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda
- Ystyried ffyrdd arloesol a newydd o weithio, wedi'u cefnogi gan dystiolaeth gadarn

Mae'r Aseiad o Anghenion y Boblogaeth yn tynnu sylw at y materion y mae angen mynd i'r afael â nhw dros y 5 mlynedd nesaf, a'r her sy'n wynebu'r rhanbarth yw penderfynu sut i gyflawni hyn, dod o hyd i'r datrysiadau, gan flaenoriaethu angen lleol a chyllid yn unol â hynny.

5 Trosolwg o Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (Cyflwyniad)

Mae'r eitem hon wedi'i gohirio tan y cyfarfod ym mis Medi – bydd copi drafft o Adroddiad Blynyddol BPRhGC yn cael ei anfon at yr aelodau fel y gallant ei adolygu a rhoi sylwadau, a chyflwynir yr Adroddiad Blynyddol terfynol yng nghyfarfod mis Medi i gael ei gytuno.

Cam Gweithredu

- Trosolwg o Adroddiad Blynyddol y BPRhGC l'w gynnwys ar raglen mis Medi – RW

6 Diweddariad ar y Rhaglen Garlam Datblygu Clystyrau

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad gan JF ar y Rhaglen Garlam Datblygu Clystyrau.

Datblygwyd y rhaglen gan y Rhaglen Strategol Gofal Sylfaenol er mwyn gwella rôl a swyddogaeth clystyrau a rhoi rôl glir i Ofal Sylfaenol yn nhrafodaethau strategol ac agenda'r bartneriaeth, yn ogystal â chefnogi'r symudiad tuag at ofal a chymorth sy'n seiliedig ar leoedd.

Mae'r rhaglen Garlam Datblygu Clystyrau yn adeiladu ar waith y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol a datblygu lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi gosod disgwyliad clir ar gyfer y Rhaglen Garlam Datblygu Clystyrau, y bartneriaeth a darpariaeth leol, a cherrig milltir clir ar gyfer

2022-23 fel blwyddyn ar gyfer pontio i'r trefniadau'r Rhaglen Garlam Datblygu Clystyrau.

O ystyried y flaenoriaeth a roddwyd gan y Gweinidog i'r rhaglen Garlam Datblygu Clystyrau, gofynnir i bartneriaid ddarparu tystiolaeth o gynnydd yn erbyn y garreg filltir ar ffurf taflenni gwirio parodrwydd i hunan-asesu o 31.5.2022 ymlaen. Cafodd yr hunan-asesiad ei gwblhau yn llawn gan gydweithwyr ar draws lechyd a Gofal Cymdeithasol, ac fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mehefin, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Grŵp Arweinyddiaeth. Roedd angen i'r Bwrdd ei gymeradwyo heddiw cyn iddo gael ei gymeradwyo'n derfynol gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Cyfeiriodd JF at y cynnydd cadarnhaol a wnaed yn erbyn pob un o'r camau gweithredu, roedd yr uchafbwyntiau yn cynnwys:

Cam gweithredu 3 – Cadarnhau'r ffin ddaearyddol fel bod modd datblygu map y Grwpiau Cynllunio Pan Glwstwr (PCPG) a Chlystyrau cysylltiedig ar gyfer rhanbarth y Bwrdd lechyd / Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol – lliw oren.

Roedd trafodaeth gychwynnol yn y Grŵp Arweinyddiaeth yn dangos eu bod o blaid adeiladu ar y strwythur presennol yn hytrach na chreu cyfarfodydd ychwanegol, gyda'r cynnig i ddatblygu byrddau gwasanaethau integredig (ISB) yr Ardal i weithredu fel grwpiau cynllunio clwstwr cyfan (PCPG) cysgodol yn ystod y flwyddyn bontio. Yn dilyn y gweithdai a gynhaliwyd ym mhob ardal, mae canlyniad yr ôl-troed yn cadarnhau 5 grwp cynllunio clwstwr cyfan ar draws Gogledd Cymru, 2 x Dwyrain a 2 x Canolog ar lefel sirol ac 1 Gorllewinol ar lefel Ardal. Bydd yr byrddau gwasanaethau integredig yn cael eu cynnal yn gyfochrog a byddant yn gweithredu fel rhwyd ddiogelwch tra bod y grwpiau cynllunio clwstwr cyfan yn sefydlu eu hunain.

Cam gweithredu 8 – Llunio cynllun prosiect i ddechrau sefydlu'r trefniadau cymharol er mwyn sefydlu Trefniadau Cydweithio Proffesiynol ar gyfer swyddi proffesiynol eraill fel nyrsio, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, a gwasanaethau cymdeithasol o bosibl – lliw oren.

Er bod cynllun prosiect manwl wedi cael ei ddatblygu fel rhan o gynllun gweithredu ehangach y rhaglen, mae'r datblygiad ar gyfer cydweithio proffesiynol yn her i bartneriaid ar draws Cymru, yn benodol oherwydd capasiti ymarferwyr i gymryd rhan, ond hefyd o ran sicrhau'r manteision o weithio mewn clystyrau maent yn ceisio eu cyflawni drwy ddod yn rhan o'r cydweithredfa. Felly, bydd yn cymryd amser i weithredu cynllun y prosiect a bydd angen i bartneriaid gefnogi ymgysylltiad parhaus ag ymarferwyr gofal sylfaenol annibynnol ac eraill sy'n dymuno creu cysylltiadau ffurfiol, er mwyn ymgysylltu'n llawn a gwerthuso nodau'r rhaglen a manteision cymryd rhan.

Gan gyfeirio at faterion deddfwriaethol a chontractau yn ymwneud â Gofal Sylfaenol yng nghyd-destun y Rhaglen Garlam Datblygu Clystyrau, dywedodd CS fod y rhaglen yn cyfeirio at y tirwedd Gofal Sylfaenol ehangach gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, yn ogystal â meddygon teulu, deintyddiaeth, optometryddion, fferyllwyr cymunedol, ac ati (cydrannau iechyd).

Gofynnodd TO sut mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gysylltiedig â gwaith y Rhaglen Garlam Datblygu Clystyrau.

Esboniodd JF fod angen rhagor o waith i sefydlu'r cysylltiad â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sut maent yn cysylltu'n llawn â gwaith y Rhaglen Garlam Datblygu Clystyrau, gan gymryd ystyriaeth o'r elfennau sy'n gorgyffwrdd ac er mwyn osgoi dyblygu gwaith.

Cytunodd BPRhGC i wneud y canlynol:

- nodi'r cynnydd a wnaed fel rhan o'r Rhaglen Garlam Datblygu Clystyrau, a
- cytuno i ôl-gymeradwyo yn dilyn cymeradwyo'r mater yn y Grŵp Arweinyddiaeth ar 24 Mehefin 2022, a'i gyflwyno'n ddiweddarach i'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol ar 27 Mehefin.

Cam Gweithredu

- JF i ddsbarthu canfyddiadau'r gweithdy ar ôl iddynt gael eu cwblhau

7 Cynllun Rhaglen y Gronfa Buddsoddiad Refeniw (RIF)

Dywedodd CR fod Modelau Gofal y Gronfa hon a gytunwyd yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol diwethaf wedi cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dilyn y cyfarfod ac roedd yr adborth wedi bod yn gadarnhaol. Roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld bod cam nesaf y gwaith yn nodi manylion rhaglen y cynlluniau i gefnogi'r Modelau Gofal a sut bydd yr arian yn cael ei ddyrannu.

Mae'r darn sylweddol hwn o waith wedi cael ei gyflawni gyda phartneriaid ers rhai misoedd a diolchodd CR i'r holl bartneriaid am eu cyfraniad. Darperir copi o'r rhaglen yn y pecyn, a ddatblygwyd yn unol ag arian a ddyrannwyd ar gyfer pob Model Gofal a gytunwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym mis Chwefror 2022.

O ran y cynlluniau a restrir, nid yw'n ymddangos y bydd unrhyw gynlluniau ychwanegol. Fodd bynnag, mae angen rhywfaint o waith ychwanegol i gwblhau'r wybodaeth ariannol yn ymwneud â'r arian cyfatebol a'r adnoddau cyfatebol.

Nid yw'r Rhaglen yn rhestru'r cynlluniau yn ymwneud â Model Gofal – Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a'r cymorth therapiwtig ar gyfer Plant sydd wedi cael profiad o ofal. Bydd y cynlluniau o dan y Model Gofal hwn yn cael eu hystyried gan is-grŵp Plant Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru,

a byddant yn cael eu cyflwyno gerbron y Bwrdd i'w cadarnhau ar ddyddiad arall yn y dyfodol.

Gan werthfawrogi bod llawer iawn o fanylion yn yr adroddiad i'r aelodau eu dadansodd, nid oes disgwyl i'r aelodau gytuno heddiw. Gofynnir i aelodau'r Bwrdd gyflwyno sylwadau ac adborth erbyn 22.7.2022 fel bod modd cyflwyno fersiwn terfynol gerbron cyfarfod y Grŵp Arweinyddiaeth ar 29.7.22. Yn y cyfamser, mae CR yn hapus i gyfarfod yr aelodau fel grŵp neu yn unigol i drafod yn fwy manwl, os oes angen.

Yn dilyn cyfarfod y Grŵp Arweinyddiaeth, bydd copi terfynol yn cael ei ddsbarthu ymhlith aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn ei ystyried a'i gytuno'n derfynol yng nghyfarfod mis Medi o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Cam Gweithredu

- Aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i roi gwybod os oes angen rhagor o fanylion ar y Gronfa Buddsoddi Refeniw.

8 Adroddiad y Gronfa Gofal Integredig (ICF) 4ydd Chwarter 2021-22

Cyflwynodd CR drosolwg o adroddiad y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer y 4ydd Chwarter 2021-22, ac uchafbwyntiau o'r 7 rhaglen ariannu:

Rhaglen Buddsoddi Refeniw – Roedd yr arian wedi'i wario i gyd gyda £6.4m wedi'i wario'n uniongyrchol ar gefnogi gofalywyr ac aeth £2.54m o'r buddsoddiad i brosiectau'r 3ydd sector. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 122 o'r 125 prosiect wedi cael statws BRAG gwyrdd ac roedd 3 wedi cael statws oren. Cafodd yr arian ei ddarparu i brosiectau yr oedd angen buddsoddiad ychwanegol arnynt.

Rhaglen Buddsoddiad Cyfalaf – Yr arian cyfalaf ar gyfer 2021/22 oedd £10.54m, gan gynnwys £1,123,245 ychwanegol i Ogledd Cymru oherwydd nad oedd rhanbarthau eraill wedi dyrannu eu harian yn llawn. Gwariant diwedd y flwyddyn oedd £6.28m (59.6%) gyda rhaglenni gwerth £4.25m wedi'u rheoli yn symud ymlaen i 2022/23 oherwydd oedi gyda rhai cynlluniau. Roedd nifer o gynlluniau wedi llithro oherwydd materion yn ymwneud ag argaeledd a darpariaeth deunyddiau ac offer, yn ogystal â phwysau o ran y gweithlu. Roedd materion cynllunio wedi achosi oedi i 2 gynllun ond mae'r rhain bellach wedi'u datrys.

Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS) – Yr arian IAS ar gyfer 2021/22 oedd £652,000 ac roedd y cyfan wedi cael ei wario.

Yn ystod y flwyddyn, roedd 1,206 o atgyfeiriadau a derbyniwyd 1,072 o'r rhain; roedd 227 unigolyn wedi cael asesiad diagnostig; roedd 299 o unigolion ag awtistiaeth wedi derbyn ymyriadau ac roedd 22 o sesiynau grwpiau cymorth wedi cael eu cynnal a'u defnyddio gan 176 o unigolion.

Cynllun Peilot Ymyrraeth Therapiwtig (TIP) – roedd yr £200K o arian ar gyfer 2021-22 wedi cael ei wario. Defnyddiwyd rhan o'r arian i gomisiynu datblygu Strategaeth ranbarthol 'Dim Drws Anghywir'.

Gwasanaeth Asesu'r Cof (MAS) – (ffrwd ariannu newydd yn 2021/22)

- Defnyddiwyd yr arian i ddarparu oriau ychwanegol a goramser ym maes Nyrso, Therapi Galwedigaethol ac Awdioleg a llwyddwyd i leihau oriau aros mewn clinigau cof
- Cwblhawyd ymarferiad comisiynu ranbarthol llwyddiannus ym mis Ionawr 2022 gyda nifer o bartneriaid y trydydd sector yn cyflwyno bidiau i ddarparu rhannau o'r llwybr. Comisiynwyd Cymdeithas Alzheimer, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, Allgymorth Gofalwyr a NEWCIS a gwnaethant ddechrau darparu cymorth cyn-asesu a chyn-diagnostig ar 1 Ebrill 2022 – yn ymwneud â Llwybr 1 a Llwybr 3
- Mae partneriaid yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr i ddod o hyd i leoliadau ar gyfer 6 canolfan dementia ar draws y rhanbarth fel rhan o'r cymorth ôl-diagnosis.
- Mae Rheolwr Llwybr Asesu Cof dynodedig yn cael ei recriwtio ynghyd a swyddogion olrhain llwybrau dementia.

Llety diogel i blant ag anghenion cymhleth, emosiynol ac ymddygiadol uwch (SACCN) – (ffrwd ariannu newydd yn 2021/22). Cadarnhawyd arian ysgogi o £450,000 ar ddiwedd mis Mai 2021 ac roedd hwn wedi cael ei wario i gyd yn ystod 2021/22 gan bartneriaid ar nifer o ddulliau gwahanol. Mae adroddiad gwerthuso yn cael ei baratoi ar hyn o bryd a bydd ar gael i bartneriaid.

Cynllun y Gaeaf

Roedd £2.21m o arian ranbarthol ar gael fel rhan o waith cynllunio ar gyfer y gaeaf ac roedd wedi cynnal 8 cynllun ar draws y rhanbarth. Cytunwyd y dylai'r Awdurdodau Lleol gael y dyraniad llawn i gefnogi gofal cymdeithasol. Defnyddiwyd yr arian mewn ffordd hyblyg i roi cymorth i bobl mewn lleoliad neu i'w cynorthwyo i ddychwelyd i'w cartref. Cofnodwyd canlyniadau lefel uwch ar gyfer y materion canlynol er mwyn nodi effaith yr arian:

1. Nifer y pecynnau gofal cartref sydd heb eu cymryd
2. Nifer yr oriau o ofal cartref heb oruchwyliaeth
3. Nifer y cleifion mewn ysbytai aciwt neu gymunedol sy'n aros i adael

Roedd y Bwrdd yn cytuno y dylid nodi'r sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn 2021/22 ffrydiau ariannu'r Gronfa Buddsoddiad Cyfalaf ac y dylid cymeradwyo adroddiad diwedd blwyddyn 4ydd chwarter 2021/22.

Gofynnodd TO a oedd y ffigyrau a roddwyd ar gyfer Plant yn ymwneud â phlant gwahanol neu phlant a oedd wedi mynychu mwy nag unwaith a chytunodd CR y byddai'n rhoi ateb y tu allan i'r cyfarfod.

Gofynnodd TO a oedd adroddiad mwy cynhwysfawr ar gael yn dangos y canlyniadau a'r casgliadau mwy hirdymor a chyfeiriodd CR at werthusiad cenedlaethol o'r Gronfa Buddsoddiad Cyfalaf a'r gwerthusiad rhanbarthol; bydd y ddau adroddiad yn cael eu cyflwyno gerbron cyfarfod y Bwrdd yn y dyfodol.

Cam Gweithredu

- Gwerthusiad o'r Gronfa Buddsoddiad Cyfalaf a'r gwerthusiad rhanbarthol I gael eu cyflwyno gerbron cyfarfod y Bwrdd yn y dyfodol

9 Diweddariad BIPBC

Cyflwynodd TO a CS ddiweddariad BIPBC gerbron y Bwrdd.

Gwelliannau YGC:

Ar ôl i nifer o bryderon gael eu codi, mae'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ymestyn y trefniant ymyrraeth wedi'i thargedu i gynnwys pwyslais ar YGC. O ganlyniad, bydd BIPBC ac YCG yn derbyn cymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a Gwelliant Cymru.

Rhannwyd cynllun gwella lefel uchel gyda'r aelodau yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad diweddar, a oedd yn dangos y gwaith a oedd yn canolbwyntio ar y pum thema allweddol canlynol:

- Nôl at y pethau sylfaenol – canolbwyntio ar ddogfennaeth a rheolaeth o'r safle
- Grymuso Arweinyddiaeth a Diwylliant –gwaith penodol wrth ddod allan o'r pandemig
- Llif yn yr ysbyty, cysylltu â holl elfennau'r ysbyty, nid yn unig yn yr Adran Frys
- Fasgwlar a theatrau – Mae'r Gwasanaethau Fasgwlar yn cael eu harwain y tu allan i YGC ar hyn o bryd.
- Archwilio, canlyniadau a sicrwydd – gwreiddio gweithgareddau i ddangos bod gwelliannau yn cael eu cynnal

Croesewir cyfraniadau gan bawb, a byddant yn sail i'r broses wella sylweddol yn YGC.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn monitro cynnydd ar draws y 5 prif thema drwy gyfarfod y cabinet o dan arweiniad aelodau'r cabinet a'r cadeirydd, gyda'r cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 11.7.22. Yn dilyn hynny, bydd prosesau trosolwg wythnosol yn cael eu rhoi ar waith gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol, Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Nyrsio dros dro yn rhoi sylw llawn i YGC. Mae trefniadau wedi cael eu gwneud hefyd i wella presenoldeb swyddogion gweithredol ar y safle gyda chymorth Gwelliant Cymru. Bydd y gwaith gwella hwn yn cysylltu'n agos â'r gwaith trawsnewid a'r gwaith gofal cenedlaethol nad yw'n rhan o'r drefn.

Strwythur BIPBC

Dyweddodd TO y byddai cam nesaf cynllun gweithredu newydd BIPBC yn dechrau ym mis Awst, ar ôl sicrhau bod rolau arweinyddiaeth allweddol yn eu lle a bod y strwythur uwch reoli gweithredol wedi'i gwblhau. Mae gwaith yn parhau ar y gwaith dylunio sy'n weddill er mwyn sicrhau bod swyddogaethau comisiynu yn cael eu hystyried.

Mae'r penodiadau allweddol yn cynnwys:

- Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth 1.8.22 – Angela Wood
- Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio dros dro – bydd Gaynor Thompson yn parhau i weithio i'r sefydliad am gyfnod er mwyn cefnogi'r gweithgaredd nyrsio ac ansawdd.
- Cyfarwyddwr Safle Aciwt Gweithredol (Gorllewin) – Barry Williams
- Dirprwy-gyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol – Jo Flannery

Mae gwaith yn parhau ar y strategaeth Gwasanaethau Clinigol. Roedd BIPBC yn ddiolchgar i'r holl bartneriaid a oedd wedi bod yn gysylltiedig yn y darn o waith sylweddol hwn a gynhaliwyd gyda phartneriaid a chafwyd ymateb da i'r holiadur diweddar. Bydd crynodeb o'r adroddiad ymgysylltu yn cael ei rannu gyda chydweithwyr.

1000 o Welyau– Mae BIPBC yn croesawu'r gwaith ymgysylltu ar y 1000 o welyau gofal ychwanegol. Deallir bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu rhaglen 1000 o welyau i gael gwelyau ychwanegol ar draws Cymru, yn cynnwys hwyluso gwelyau gofal cartref – sy'n cael ei yrru gan risg clinigol ac oedi wrth drosglwyddo cleifion.

Tynnodd aelodau BPRhGC sylw at y canlynol:

- Mae'r llif drwy'r ysbyty yn fater o bwys i BPRhGC, y Gronfa Buddsoddiad Refeniw, cynllunio yn y dyfodol mewn perthynas â Chynllun Ardal BPRhGC. Mae angen i holl bartneriaid BPRhGC weithio gyda'i gilydd ar y thema hon.

- Pwysigrwydd sicrhau bod cyfathrebu cyson â'r holl bartneriaid
- Ymateb i'r broblem yn ymwneud â'r gweithlu ar y cyd er mwyn rhoi sylw i'r llif drwy'r ysbyty, a chael dull ystyriol er mwyn cael datrysiad ar gyfer y tymor byr, canolig a'r tymor hir.
- Hefyd, cydnabod yr unigolion y mae angen gofal arnynt yn y gymuned, a chanolbwyntio ar y system gyfan

10 Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf – Mehefin 2022

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10.6.2022 yn gofnod cywir o'r cyfarfod a bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

11 Unrhyw Fater Arall

Canlyniadau'r Arolwg – Dywedodd CR fod dadansoddiad llawn yn cael ei gynnal ar hyn o bryd o arolwg diweddar BPRhGC a bydd y canlyniadau yn cael eu rhannu yng nghyfarfod BPRhGC ym mis Medi.

12 Cafodd y ddogfen ganlynol ei chynnwys yn y pecyn er gwybodaeth:

- Crynodeb o'r Gwerthusiad o'r Rhaglen Drawsnewid

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Gwener, 9 Medi 2022